



Atebion

Beth? Ble?

Llun 1:

1. Faint o bobl sy yn y llun a beth maen nhw'n wneud?
Mae pedwar person yn eistedd o gwmpas bwrdd ac maen nhw'n siarad.
2. Beth sy ar y waliau?
Mae dau ŵn gwisgo ar y wal. Hefyd mae tywelion a dwy gawod.
3. Edrychwch ar y cadeiriau'n ofalus. Beth ydyn nhw?
Toiledau ydy'r cadeiriau.
4. Pam mae'r bobl yn y lle yma, tybed?
Maen nhw'n aros am fwyd.

Llun 2:

5. Faint o bobl sy yn y llun a beth maen nhw'n wneud?
Mae dau berson yn y llun ac maen nhw'n bwyta.
6. Beth sy ar y bwrdd?
Mae powlenni, dau wydr, bwyd a diod ar y bwrdd.
7. Edrychwch ar siâp y bowlen – beth ydy'r siâp?
Toiled bach ydy e.
8. Edrychwch ar y cadeiriau'n ofalus. Beth ydyn nhw?
Toiledau ydyn nhw.
9. Ydy'r bobl yn hapus? Pam?
Ydyn, mae'r bobl yn hapus achos maen nhw'n bwyta bwyd blasus ac mae'r bachgen yn gwenu.
Maen nhw'n ffrindiau da, efallai.
10. Ble mae'r bobl yma a'r bobl yn y llun cyntaf?
Maen nhw mewn tŷ bwyta ar thema toiled.
Mae'r tŷ bwyta yn Llun 1 yn China ac mae'r tŷ bwyta yn Llun 2 yn Taiwan.

I ddarllen mwy – ewch i Dasg 1

Geirfa	
gŵn gwisgo	dressing gown
tywel, tywelion	towel, towels
cawod	shower
gwydr	glass
gwenu	to smile
efallai	perhaps
thema	theme